# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Hydref, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Nid oedd posib i'r Cadeirydd fynychu'r cyfarfod heno, Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd Olwen Roberts, croesawodd pawb i'r cyfarfod.<br><br>**YN BRESENNOL:**<br><br>William Jones **(WJ);** Sianelen Pleming **(SP);** Derek Thomas **(DT);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Lois Fychan **(LF)**; Ynyr Ellis **(YE);** Olwen Roberts **(OR);** Emlyn Williams **(EW);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN**<br><br>Gethin Jones **(GJ);** Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD MEDI 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan WJ gydag OW yn eilio |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a)** **PONT BRYN CELYN – CAIS I BEINTIO ARWYDD ARAF**<br>Adroddwyd y mater i'r Cyngor Sir<br><br>**b)** **DRAIN MYNWENT LLITHFAEN**<br>Y clerc i ddilyn y mater gyda gwirfoddolwr y fynwent<br><br>**c)** **BIN GWASTRAFF CI DIFFYGIOL - CAIS I LEOLI AR DOP NANT**<br>Y bin gwastraff diffygiol wedi ei dynnu o'r safle ond heb ei ail sefydlu. Y clerc i barhau gyda threfniadau lleoli ar ben y Nant.<br><br>**d)** **OR - TYLLAU AR DRO LON ISAF AM BENTRE-UCHAF O GROES CYN CYRRAEDD LÔN FFOSYDD**<br>Adroddwyd y gwyn i Briffyrdd Dwyfor, dim wedi ei wneud, y clerc i ddilyn y mater.<br><br>**e)** **GORFODAETH – CYNGOR CYMUNED LLANNOR**<br>Gohebwyd a Chyngor Cymdeithas Llannor, yn parhau i ddisgwyl ymateb.<br><br>f) **LF – RAGWORT**<br>Adroddwyd y gwyn i Briffyrdd Dwyfor |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim yn cael ei ddatgan |

| | |
|---|---|
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w trafod |
| **8.** | **LON RHOSYDD – CANLYNIAD CYFARFOD SAFLE - FFOES** |
| | Adroddodd yr aelodau bod y cyfarfod wedi bod yn un buddiol.<br>Bydd Mabon ap Gwynfor nawr yn pwyso ar Gyngor Gwynedd i ddileu'r lon o gyfarwyddiadau SAT NAV a hefyd yn pwyso am arwyddion 'Dim yn addas i gerbydau trwm'. Bydd hefyd yn dod ar fater i sylw Llwybrau Diogel yn y tymor hir.<br>Ychwanegodd GJLJ ei fod hefyd wedi tynnu lluniau o'r polyn cam ar waelod Lôn Rhosydd . |
| **9.** | **SAFLE WE'R CYNGOR** |
| | Dim i'w drafod |
| **10.** | **LLECYNNAU ANGEN EU HARDDU YN LLITHFAEN** |
| | Nid oedd diweddariad ar y mater gan fod angen cadarnhau gwybodaeth yn ddogfennau historic y Cyngor. |
| **11.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Y Ganolfan bellach yn agored ar brydles yn fwy ond heb eu hagor yn swyddogol hyd nes y 31 o Hydref am 7<br>Adroddodd SP bydd angen gwaith pellach ar y lloriau , esboniodd nad oedd y Ganolfan wedi gwneud incwm o barcio na gweithgareddau ers 2 flynedd, gofynnodd a fydd y Cyngor yn cefnogi clustnodi nawdd ar gyfer y gwaith, cytunodd yr aelodau mewn egwyddor.<br>Bydd hefyd angen dyrannu llefydd parcio saff i'r rhai sydd yn talu, gyda bolard. |
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | SP - Cwynion pellach wedi eu derbyn am 13 car wedi parcio yn un tŷ yn Awelfryn, amhosib i ddreifio i'r stad.<br>Y Clerc ofyn i'r Heddlu archwilio Tax ag MOT hefyd gyrru'r cwyn ymlaen i ADRA<br><br>GJLJ - Car yn parhau i fod wedi parcio ar balmant o flaen Vic- y clerc ofyn i'r heddlu gael gair.<br><br>OR - Problem diogelwch gyda chlawdd yn Lôn Elim, creu perygl i gerddwyr a modurwyr.<br><br>Gordyfiant ar Bont Bryncelyn Isaf y clerc ofyn i'r Cyngor Sir lythyru.<br><br>SP - Lon Gors Lwyd i Fryn Ffynnon - llythyru a Dafydd Rhun gofyn am ddiwedd y mater.<br><br>SP - Gwter yn ganol lon dros ffor a Alpha, angen ei ail leoli lle fydd dwr yn gallu rhedeg iddo.<br><br>OW – Pistyll yn parhau i fod angen chwyn laddwr |
| **13.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Dim i'w drafod |

| 14. | GOHEBIAETH A GWYBODAETH |
|---|---|
| | a) **BWLETIN NEWYDDION MANTELL GWYNEDD**<br>b) **MENTRAU IAITH – GWREIDDIAU GWYLLT**<br>c) **YMESTYN Y CYFNOD GALW AM SAFLEOEDD HYD AT IONAWR 2025**<br>d) **DIWRNOD AGORED - CAPEL NEWYDD NANHORON - 28.10.2024**<br>e) **ADOLYGIAD DOSBARTHIADAU A MANNAU PLEIDLEISIO**<br>f) **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2025-2026** |
| **15.** | **CYLLID** |

**CYSONIAD 2024/ 2025**

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | **£ 3,936.75** |
| + | **GWARGED 2024/ 2025** | | **£ 4,767.09** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 20,732.08** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Awst I 30 o Fedi 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 15,171.41** |
| Derbyniadau | + | £ 6,000.00 |
| Gwariant | - | £ 2,395.65 |
| Balans Cau | = | **£ 18,775.76** |

**CYFRIF CADW - 07 Awst I 6 o Fedi 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 2,731.20** |
| Derbyniadau | + | £ 13.21 |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,744.41** |
| | = | **£ 21,520.17** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| | | = | **£ -** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Cyflog Clerc | 201326 | 274.60 |
| - | Treuliau | " | 27.49 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | - | Audit Wales 2019/20 | 201327 | | 210.00 |
| | - | Cyngor Gwynedd | 201328 | | 276.00 |
| | - | | | | |
| | | | | = | £ 788.09 |
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | | | = | **£ 20,732.08** |
| | - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)** | | - | **-£ 15.70** |
| | - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)** | | | **£ 242.00** |
| | = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON** | | = | **£ 20,505.78** |

| | |
|---|---|
| **16.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 12fed o Dachwedd 2024, Y Ganolfan, Llithfaen am 7 |